

CYNGOR BRO LLANLLWNI

Cynhaliwyd y Cyfarfod yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, nos Lun 9 Ionawr 2017 am 8.00yh.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod. Estynwyd cydymdeimlad i Emyr Evans a'r teulu ar farwolaeth ei dad yn ddiweddar sef David Evans, Murmur y Coed. Dymunwyd, yn ogystal, wellhad buan i frawd Emyr, sef Wyn Evans yn dilyn ei arhosiad yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod blaenorol.

COMISYNYDD YR HEDDLU

Nid oedd y Clerc wedi derbyn ymateb hyd yma am y parcio gwrthgymdeithasol ar y palmant ger garej Celtic Classics. Roedd y Cynghorwyr yn siomedig hefyd nad yw y Plismyn Cymunedol yn gweld yn dda bellach i fynychu cyfarfodydd y cyngor. Nid yw'n bosibl felly drafod pynciau o bwys i'r gymuned â'r heddlu, wyneb yn wyneb ac nid ydynt yn ymateb i ohebiaeth. Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu drachefn â'r Comisiynydd.

CWMNI RES

Yn dilyn y cyflwynaid diffygiol a gafwyd gan y cwmni yng nghyfarfod 11 Gorffennaf 2016, roedd y Clerc wedi holi drachefn am atebion i'r cwestyniau a godwyd yng nghyfarfod mis Gorffennaf 2016, ond ni dderbyniwyd ymateb.

Y CAE CHWARAE

Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi ar y cae chwarae. Roedd y Cadeirydd wedi derbyn copi o'r adroddiad am yr adnoddau ar y cae chwarae ac roedd yn foddhaol. Roedd y Clerc wedi derbyn ymateb gan Un Llais Cymru am briodoldeb prynu darn o dir. Penderfynwyd yn unfrydol i brynu'r tir a oedd wedi'i gynnig yn ei gyfanrwydd.

MANTOLEN

Cyflwynwyd y fantolen ddiweddaraf i'r Cynghorwyr a chafwyd trafodaeth.

Penderfynwyd cefnogi: Macmillan; Ambiwylans Awyr Cymru; Marie Curie; British Red Cross; Shelter Cymru; Urdd Gobaith Cymru; Eisteddfod Genedlaethol Cymru; Y Sioe Fawr; Clefyd y Galon (Ardal Llanybydder).

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf. Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni ar 13 Mawrth 2017 am 8.00yh.